OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 363 (Cy.49)

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awdurdodaeth a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2006

Wedi'i wneud	- -	*14 Chwefror 2006*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 10(2), 28(2)(a), 41(1) a (3), 43(1)(b) a 44(2)(b) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**1**), ac wedi cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan adrannau 10(3), 28(4) a 41(4) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awdurdodaeth a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005,

(b) ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**2**), ac

(c) ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**3**).

(4) Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni fynegir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac at Atodlenni iddi.

Diwygiadau i Atodlen 2 (materion wedi'u heithrio)

2. Yn Atodlen 2—

(a) yn lle paragraff 8 rhodder—

(**1**) 2005 p. 10.
(**2**) 1977 p. 49.
(**3**) 2003 p. 43.

"**8.** Action under—

(a) the National Health Service Act 1977,

(b) Part 1 of the National Health Service and Community Care Act 1990,

(c) Part 1 of the Health Act 1999 (with the exception of sections 33 to 38), or

(ch) Part 1 of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003,

where the action is or has been the subject of an inquiry under the Inquiries Act 2005.", a

(b) hepgorer paragraff 10.

Diwygiad i Atodlen 3 (awdurdodau rhestredig)

3. Yn Atodlen 3, ar ôl y cofnod sy'n ymwneud â Chyngor Gofal Cymru mewnosoder—

"The Board of Community Health Councils in Wales"

in relation to all its functions.

Diwygiad i'r diffiniad o "family health service provider in Wales"

4. Yn adran 41(1), yn y diffiniad o "family health service provider in Wales"—

(a) ym mharagraff (a) yn lle "section 28Q "rhodder "section 28K or 28Q",

(b) ym mharagraff (c) yn lle "primary medical or dental services" rhodder "primary medical services or primary dental services", ac

(c) hepgorer paragraff (d).

Darpariaethau arbed mewn perthynas â'r diffiniad o "family health service provider in Wales"

5. Mewn perthynas ag unrhyw gŵyn ynglŷn â mater a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2004—

(a) yn lle paragraff (a) o'r diffiniad o "family health service provider in Wales" (fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4(a) o'r Gorchymyn hwn) rhodder—

"(a) individuals undertaking to provide in Wales general medical services or general dental services under Part 2 of the National Health Service Act 1977;" a

(b) yn lle paragraff (c) o'r diffiniad o "family health service provider in Wales" (fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4(b) o'r Gorchymyn hwn) rhodder—

"(c) individuals performing in Wales personal medical services or personal dental services in accordance with arrangements made under section 28C of the National Health Service Act 1977 (except as employees of, or otherwise on behalf of, a health service body or an independent provider);".

Darpariaethau darfodol mewn perthynas â'r diffiniad o "family health service provider in Wales"

6.—(1) Mewn amgylchiadau ac eithrio'r rhai a ddisgrifir yn erthygl 5 a hyd nes y daw adran 172(1) o Ddeddf 2003 i rym mewn perthynas â chontractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol—

(a) (ym mharagraff (a) o'r diffiniad o "family health service provider in Wales" (fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4(a) o'r Gorchymyn hwn) yn lle "section 28K or 28Q" rhodder "section 28Q";